

Ysgol Aberconwy



Polisi Derbyniadau & Dewisiadau

Dogfen Bolisi Rhif : 2

RHIFYN: 11

CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHU CYFAN

Llofnod:

Dyddiad: 10/12/24

Dyddiad adolygu : 1/12/25

Cyswllt TA : IG

POLISI DERBYNIADAU A DEWISIADAU

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn unol â pholisi derbyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gellir gweld copïau o'r polisi yn yr ysgol neu yn <http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Education-and-Families/School-Admissions/School-Admissions.aspx>.

Mae'r ysgol hefyd yn cyhoeddi copi o'r polisi ar ei gwefan ei hun:
<http://www.aberconwy.conwy.sch.uk/school/admissions>.

Mae'r polisi yn datgan y canlynol mewn perthynas â meini prawf derbyniadau:

- y ddyletswydd i gydymffurfio â dewis rhieni pan nad yw'r nifer derbyn wedi'i gyrraedd;
- y ddyletswydd i sicrhau bod buddiannau Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a fu'n Derbyn Gofal yn cael eu hamddiffyn ac yn cael blaenoriaeth yn y meini prawf gordanysgrifio ar gyfer pob ysgol;
- y ddyletswydd i sicrhau bod disgybl â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu derbyn i'r ysgol a enwir yn y datganiad;
- rhwymedigaeth i sicrhau bod disgyblion ag anghenion meddygol neu addysgol eithriadol yn cael eu derbyn i ysgol benodol;
- y rhwymedigaeth i sicrhau y darperir addysg effeithlon a'r defnydd effeithlon o adnoddau; ac unrhyw gyfyngiad a all godi mewn perthynas ag ysgol benodol o ganlyniad i weithredu'r nifer derbyn, sef nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Yn ein hachos ni, nifer derbyn yr ysgol yw **204**.
- unrhyw gyfyngiad a all godi mewn perthynas â gordanysgrifio. Pennir blaenoriaeth o fewn pob categori gan bellter cerdded diogel o'r ysgol. Mesurir pellter trwy gyfrwng meddalwedd GIS (Systemau Gwybodaeth Graffigol) Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy, a gydnabyddir yn genedlaethol, gan ddefnyddio'r llwybr cerdded byrraf o ddrws blaen cartref yr ymgeisydd i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

Nid oes dyletswydd ar Awdurdodau Derbyn i dderbyn plentyn i ysgol ar gyfer addysg mewn dosbarth babanod yn unol â dewis y rhiant, lle byddai derbyn y plentyn yn niweidio addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau oherwydd 'mesurau cymhwyso'. Mesurau cymhwyso yw'r mesurau y byddai angen eu hangen i sicrhau bod y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau yn cael ei fodloni (hynny yw, na ddylai unrhyw ddosbarth gynnwys mwy na 30 disgybl).

Mewn amgylchiadau lle mae nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer safonol, bydd yr Awdurdod yn ystyried y meini prawf canlynol yn y drefn a restrir:

Categori A

'Plant sy'n Derbyn Gofal' a 'Plant a fu'n Derbyn Gofal'.

Categori B

Plant sydd ag anghenion meddygol neu addysgol eithriadol sydd, ym marn yr Awdurdod Derbyn, yn cyfiawnhau mynediad i ysgol benodol.

Categori C

Disgyblion sy'n byw yn 'nalgylch' yr ysgol.

Categori D

Disgyblion sydd â brodyr a chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol neu sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner ond nad ydynt yn byw yn y 'dalgyllch'.

Categori E

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner ond nad ydynt yn byw yn y 'dalgyllch'.

Categori F

Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r 'dalgyllch' ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer unrhyw un o'r categorïau uchod.